Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Ymchwiliadau crwner

## Arweiniad byr

Mae'r llawlyfr hwn wedi'i roi i chi oherwydd bod rhywun sy'n agos atoch wedi marw ac mae eu marwolaeth wedi'i ryportio i'r crwner. Nid yw'n mynd i fanylion, ond mae'n egluro o ble allwch gael mwy o wybodaeth.

Mae'r daflen hon yn rhoi crynodeb byr – nid yw'n sôn am beth allai ddigwydd ym mhob amgylchiad.

Mae'r Arweiniad i Wasanaethau Crwner yn llawlyfr mwy manwl gyda mwy o wybodaeth am bopeth yn y daflen hon. Mae copi ar gael o:

- www.gov.uk
- eich swyddfa crwner leol, neu
- gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder drwy e-bostio coroners@justice.gsi.gov.uk neu ffonio 020 3334 3555 a gofyn am dîm y crwner.

### Beth mae crwner yn ei wneud?

Daliwr swydd farnwrol annibynnol yw crwner, a benodir gan gyngor lleol. Fel arfer mae gan grwneriaid gefndir cyfreithiol ond bydd y crwner hefyd yn gyfarwydd â therminoleg feddygol.

Mae crwneriaid yn ymchwilio i farwolaethau a ryportiwyd iddynt os oes ganddynt le i feddwl:

- bod y farwolaeth yn dreisgar neu'n annaturiol
- bod yr hyn achosodd y farwolaeth yn anhysbys, neu
- y bu farw'r person yn y carchar, yng ngofal yr heddlu neu mewn canolfan gadw arall gan y wladwriaeth.

Yn yr achosion hyn rhaid i'r crwner ymchwilio i ddarganfod, er budd i bobl mewn profedigaeth ac i bwrpas cofnodion swyddogol, pwy fu farw, a sut, pryd a lle y bu farw.

I gael mwy o wybodaeth am beth i'w ddisgwyl ewch i:
www.gov.uk/after-a-death/when-a-death-is-reported-to-a-coroner

## Yr archwiliad post-mortem

Os yw'r crwner yn penderfynu bod angen ymchwiliad, bydd patholegydd fel arfer yn gwneud archwiliad post-mortem o'r corff.

Rhaid i'r crwner ryddhau'r corff cyn gynted â phosibl, fel y gallwch chithau wedyn drefnu'r angladd.

Dylech roi gwybod i'r crwner yn ysgrifenedig os dymunwch fynd â chorff dramor (gan gynnwys i'r Alban ac i Ogledd Iwerddon).

Os yw'r archwiliad post-mortem yn dangos beth achosodd y farwolaeth, bydd y crwner yn anfon ffurflen i'r Cofrestrydd Genedigaethau a Marwolaethau'n nodi beth achosodd y farwolaeth. Gallwch wneud apwyntiad i gofrestru'r farwolaeth.

## Y cwest

Os nad oedd yn bosibl darganfod achos y farwolaeth o'r archwiliad post-mortem, neu os cafwyd bod y farwolaeth yn annaturiol, rhaid i'r crwner gynnal cwest. Gwrandawiad mewn llys cyhoeddus yw cwest sy'n cael ei gynnal gan grwner i sefydlu pwy a fu farw a sut, pryd a lle y bu farw.

Bydd y cwest yn cael ei gynnal cyn gynted â phosibl ac fel arfer o fewn 6 mis i'r farwolaeth os yw hyn yn bosibl. Bydd y crwner yn rhoi gwybod i chi os oes angen mwy o amser a beth i'w ddisgwyl yn eich achos chi.

Os bu farw'r person yn y carchar neu yn y ddalfa, neu o ganlyniad i ddamwain yn y gwaith, fel arfer bydd rheithgor yn y cwest.

## Ar ddiwedd y cwest

Bydd y crwner (neu'r rheithgor pan fydd un) yn dod i gasgliad ar ddiwedd y cwest. Bydd hyn yn cynnwys y 'penderfyniad' cyfreithiol yn nodi'n ffurfiol pwy a fu farw, ble, pryd a sut. Gall y crwner neu'r rheithgor hefyd wneud 'darganfyddiadau' fel bo'r farwolaeth yn cael ei chofrestru. Wrth gofnodi achos y farwolaeth, gall y crwner neu'r rheithgor ddefnyddio un o'r termau canlynol:

- damwain neu anffawd

- cysylltiedig ag alcohol / cyffuriau
- afiechyd diwydiannol
- lladd yn gyfreithlon
- lladd yn anghyfreithlon
- achosion naturiol
- dyfarniad agored
- damwain ar y ffordd
- marw-anedig
- hunanladdiad

Gall y crwner neu'r rheithgor hefyd ddod i gasgliad 'naratif' byr gan nodi ffeithiau mwy manwl oedd yn gysylltiedig â'r farwolaeth ac yn egluro'r rhesymau am y penderfyniad.

## Cyngor cyfreithiol

Yn y rhan fwyaf o achosion ni fydd angen i chi gyfarwyddo cyfreithiwr i'ch cynrychioli mewn cwest, er y gallwch wneud os dymunwch. Proses i ddarganfod ffeithiau yw cwest a bydd y crwner yn sicrhau bod y broses yn deg a thrylwyr a bod eich cwestiynau am ffeithiau'r farwolaeth yn cael eu hateb.

## Herio casgliad y crwner neu gwyno am y gwasanaeth

Gallwch herio penderfyniad y crwner neu gasgliad y cwest. Dylech wneud hyn cyn gynted â phosibl oherwydd weithiau mae terfyn amser o dri mis. Os ydych yn meddwl gwneud hyn, dylech yn gyntaf ofyn am gyngor gan gyfreithiwr sy'n arbenigo yn y maes hwn o'r gyfraith.

Os ydych yn anhapus ag ymddygiad personol y crwner, dylech gwyno i'r Swyddfa Ymchwilio i Ymddygiad Barnwrol.

Os dymunwch gwyno am safon y gwasanaeth a gawsoch, dylech gwyno wrth y crwner i ddechrau.

Gallai gwefan Cymdeithas y Cyfreithwyr eich helpu i ddod o hyd i gyfreithiwr yn http://www.lawsociety.org.uk/

Gallwch gysylltu â'r Swyddfa Ymchwilio i Ymddygiad Barnwrol drwy ffonio 0207 073 4719 neu ar-lein yn: https://ojc.judiciary.gov.uk/OJC/complaintlink.do

## Cael copïau o ddogfennau

Gallwch ofyn am gopïau o adroddiadau ar unrhyw archwiliad post-mortem, ac o ddogfennau sy'n berthnasol i'r ymchwiliad. Ni fydd swyddfa'r crwner yn codi tâl am gopïau o ddogfennau a ddarparwyd cyn neu yn ystod y cwest, ond medrant godi tâl ar ôl y cwest.

Gallwch hefyd ofyn am gopi o recordiad y cwest, a bydd tâl am hyn.

## Cael mwy o wybodaeth a chymorth profedigaeth

Mae'r **Arweiniad i Wasanaethau Crwner** yn egluro beth i'w ddisgwyl gyda mathau arbennig o farwolaeth – er enghraifft, marwolaeth plentyn, marwolaeth dramor, lle bu farw aelod o'r lluoedd arfog neu lle gallai fod ymchwiliad troseddol i'r farwolaeth.

Mae amryw o fudiadau lleol a chenedlaethol, grwpiau cymorth a grwpiau ffydd sy'n helpu pobl a gafodd brofedigaeth. Bydd swyddfa'r crwner yn gallu rhoi mwy o wybodaeth i chi.

Mae gan y wefan GIG Dewisiadau fanylion am fudiadau cymorth yn:
www.nhs.uk/livewell/bereavement/Pages/bereavement.aspx

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n cyhoeddi:

- gwybodaeth gyffredinol ar beth i'w wneud pan dydd rhywun yn marw:
  www.gov.uk/afteradeath
- gwybodaeth penodol ar Daliadau a Lwfans Profedigaeth
  www.gov.uk/bereavement-allowance

Ffynhonnell wybodaeth arall yw Llinell Wybodaeth Gwasanaeth profedigaeth yr Heddlu Metropolitan (wedi'i recordio ymlaen llaw) ar 0800 032 9996, a'i gwefan:
http://contentmet.police.uk/Site/bereavementfamilyliaison


© Hawlfraint y Goron 2014